

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau,  
Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX  
ddydd Mercher, 18 Ionawr, 2017 am 10.00 am

Cysylltwch â: Hannah Williams (Ffôn: 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ddydd Llun 16 Ionawr 2017. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cabinet yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443 424062 neu anfonwch e-bost i [Cabinet@rctcbc.gov.uk](mailto:Cabinet@rctcbc.gov.uk)

**MATERION I'W TRAFOD**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

## **2. COFNODION**

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gafodd ei gynnal ddydd Iau 15 Rhagfyr, 2016.

**(Tudalennau 5 - 14)**

## **3. ADOLYGU COSTAU MEYSYDD PARCIO**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd, sy'n rhoi adborth manwl ar gyfnod ymgynghori â'r cyhoedd dros chwe wythnos yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2016. Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â newidiadau arfaethedig i drefn costau meysydd parcio'r Cyngor, a bydd yn helpu i lywio penderfyniad y cabinet.

**(Tudalennau 15 - 58)**

## **4. GWASANAETH CYFIEITHU AR Y PRYD A CHYFIEITHU CYMRU**

Derbyn yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â'r cynnig i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros Wasanaeth Cyfieithu ar y Pryd a Chyfieithu Cymru, sy'n wasanaeth a gaiff ei rannu, o Heddlu Gwent i Gyngor Dinas a Sir Caerdydd.

**(Tudalennau 59 - 104)**

## **5. RHEOLI PLANT SY'N DERBYN GOFAL YN RHONDDA CYNON TAF YN DDIOGEL**

Derbyn yr adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn Rhondda Cynon Taf. Bydd hefyd yn tynnu sylw'r Cabinet at y camau gweithredu sydd ar waith er mwyn sicrhau bod y rheiny sy'n derbyn gofal o dan ofal y Cyngor am y cyfnod lleiaf posibl.

**(Tudalennau 105 - 118)**

## **6. CANLYNIADAU ARHOLIADAU CYFNOD ALLWEDDOL 4 A CHYFNOD ALLWEDDOL 5 A'R CATEGORïAU NEWYDD I YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD AR GYFER 2017**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n cadarnhau canlyniadau arholiadau Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5, a chategorïau drafft Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn ôl system gategoreiddio Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17.

**(Tudalennau 119 - 130)**

**7. HUNANASESIAD CORFFORAETHOL A HUNANASESIAD O WASANAETHAU'R CYNGOR**

Derbyn adroddiad y Prif Weithredwr i Aelodau er mwyn ystyried hunanasesiad corfforaethol a hunanasesiad o wasanaethau'r Cyngor ar gyfer 2016.

**(Tudalennau 131 - 216)**

**8. MATERION BRYD**

Ystyried unrhyw faterion bryd y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'A. S. Jones', written in a cursive style.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**

## **Cylchrediad:-**

**Y** A Morgan (Cadeirydd)  
**Cynghorwyr:** M Webber (Is-gadeirydd)  
R Bevan  
A Crimmings  
M. Forey  
(Mrs) E. Hanagan  
G. Hopkins  
M Norris  
(Mrs) J. Rosser

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr  
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen  
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol  
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael  
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus  
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio  
Paul Mee, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd  
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd